
# TGAU Llenyddiaeth Gymraeg Uned 1 Uwch 4541-02

**Perfformiad yr holl ymgeiswyr ar draws y cwestiynau**

| *Teitl y cwestiwn* | *N* | *Sgôr gymedrig* | *GS* | *Marc uchaf* | *Ff H* | *Cynnig %* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1a | 1050 | 1.9 | 0.3 | 2 | 94.3 | 44.4 | |
| 1b | 1050 | 13.3 | 5.2 | 20 | 66.3 | 44.4 | |
| 1c | 1044 | 6.1 | 1.8 | 8 | 76.3 | 44.1 | |
| 1ch | 1046 | 6.2 | 2.5 | 10 | 62.2 | 44.2 | |
| 2a | 1309 | 1.9 | 0.3 | 2 | 94 | 55.3 | |
| 2b | 1310 | 9.9 | 4.6 | 20 | 49.6 | 55.4 | |
| 2c | 1302 | 5.3 | 2.1 | 8 | 66.7 | 55 | |
| 2ch | 1291 | 4.2 | 2.3 | 10 | 41.6 | 54.6 | |
| 3a | 721 | 9.7 | 4.2 | 20 | 48.7 | 30.5 | |
| 3b | 707 | 3.7 | 2.3 | 10 | 36.7 | 29.9 | ← 3b |
| 3c | 704 | 5 | 2.2 | 10 | 49.9 | 29.8 | |
| 4a | 941 | 10.1 | 4.5 | 20 | 50.4 | 39.8 | |
| 4b | 935 | 4.8 | 2.6 | 10 | 48.1 | 39.5 | ← 4b |
| 4c | 893 | 5.8 | 2.5 | 10 | 57.9 | 37.7 | |
| 5a | 270 | 12.6 | 4.9 | 20 | 62.8 | 11.4 | |
| 5b | 267 | 5.3 | 2.8 | 10 | 53 | 11.3 | |
| 5c | 258 | 6.3 | 2.6 | 10 | 62.7 | 10.9 | |
| 6a | 410 | 12.8 | 4.7 | 20 | 63.9 | 17.3 | |
| 6b | 404 | 5.2 | 2.6 | 10 | 51.8 | 17.1 | ← 6b |
| 6c | 393 | 6 | 2.2 | 10 | 59.7 | 16.6 | |



TGAU Llenyddiaeth Gymraeg Uned 1 Uwch 4541-02
Cwestiwn
6c
6b
6a
5c
5b
5a
4c
4b
4a
3c
3b
3a
2ch
2c
2b
2a
1ch
1c
1b
1a
59.7
51.8
63.9
62.7
53
62.8
57.9
48.1
50.4
49.9
36.7
48.7
41.6
66.7
49.6
94
62.2
76.3
66.3
94.3
0
10
20
30
40
50
60
70
80
90
100
Ffactor Hygyrchedd%

## AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones

**3.** Darllenwch y darn a gymerwyd o **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr** ar dudalen 7. Yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(b)* Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 7.
Sut mae'r awdur yn darlunio dicter a theimladau cryfion yn yr olygfa hon?
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol.
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]

Edrychodd y ddau i fyny'n sydyn. O'u blaenau, yr oedd cryn ddwsin o blismyn yn edrych tuag atynt, a sylwodd Meredydd ar Gareth Hughes yn eu canol. Daeth rhingyll oddi wrth y criw tuag atynt, ac yr oedd yn amlwg mai ef oedd yr un a waeddodd arnynt.

"Ac i ble'r ewch chi, tybad?"

"Am dro," atebodd Meredydd yn sydyn ac yn swta.

"Dewch chi ddim am dro ar hyd y lôn yma. Cerwch, miglwch hi."

"Dim peryg yn y byd."

Yr oedd Meredydd yn dechrau tanio. Edrychai'n herfeiddiol ar y rhingyll ac atgasedd lond ei lygaid. Gafaelai Einir yn dynn yn ei fraich.

"Yli di was, os ydw i'n deud ..."

"Ylwch chitha. Os ydw i isio mynd i Dan Ceris i edrych am Now, mi a'i i Dan Ceris i edrych am Now, ac os penderfyna i fynd i ben y mynydd, yno landia i. Be 'dach chi'n ei wneud yma, pa'r un bynnag? Dim ond blydi plismyn fyddai'n ddigon dwl i chwilio ochra mynydd am ddyn wedi boddi yn y môr."

Dawnsiai'r rhingyll yn ei unfan.

"Yli di'r geg fawr, be wyddost ti am foddi?"

Yr oedd wyneb yn wyneb â Meredydd erbyn hyn, a chodai'r arogl baco cryf a ddeuai o'i geg gyfog ar Meredydd. Hoffai chwydu i'w wyneb. Aeth yn welw yn sydyn, a rhoes gam yn ôl.

"Mi wn i fwy am foddi na thi, y plismon drama uffar," meddai rhwng ei ddannedd.

Troes Meredydd i fynd heibio iddo, ond rhuthrodd y rhingyll am ei fraich. Wrth eu hochr safai Einir yn crynu, gan ddal i afael yn dynn yn Meredydd.

"Be ddwedist ti'r cyw mul diawl?"

Symudodd rhai o'r plismyn eraill tuag atynt pan welsant ei bod yn mynd yn syrcas yno. Gwelodd Meredydd yr Arolygydd a oedd yn nhŷ Gladys y diwrnod y bu farw yn dod o'u canol yn sydyn.

"Be sy'n bod?" gofynnodd.

Dechreuodd y rhingyll ddweud ei gŵyn, ond torrodd Meredydd ar ei draws.

"Ble'r oeddech chi ddwy flynedd yn ôl y diawliaid?" gofynnodd i'w canol. "Mi fu 'na foddi yma'r adeg honno hefyd."

Yr oedd wedi gwylltio gormod i ddal ei olygon ar unrhyw un o'r plismyn, a gwibiai ei lygaid o un i'r llall heb weld yr un ohonynt.

"Ond doedd hynny ddim yn bwysig nac oedd? Doedd ffeuan o bwys am hwnnw'n nac oedd?"

Ceisiodd yr Arolygydd siarad ond mynnai Meredydd gael y blaen.

"Be sydd mor arbennig yn hwn? Wedi treisio rhywun mae o?"

Dechreuodd rhai o'r plismyn wingo.

"Be wnewch chi efo fo pan ddowch chi o hyd iddo fo? Ei ddyrnu fo a'i gicio fo …"

"Taw, Meredydd."

Daeth llais Einir ag ef at ei goed a rhoes daw arni. Edrychai'r plismyn i gyd yn syfrdan ond yr Arolygydd a Gareth Hughes. Edrychodd yr Arolygydd yn fyfyrgar am funud, yna siaradodd yn hamddenol fel pe na bai dim o'i le.

"Os ydych chi'n chwilio am ŵr Tan Ceris, mae o yn yr iard. Os ydych chi'n mynd i ben y mynydd rhowch wybod i mi os gwelwch chi rywbeth anarferol."

Troes oddi wrthynt gan amneidio ar y rhingyll a safai'n syth fel polyn â'i ddyrnau'n dynn y tu ôl iddo'n ceisio dal ffrwyn ar ei gynddaredd. Rhoes edrychiad sydyn ar Gareth Hughes wrth glywed hwnnw'n rhoi ochenaid o ryddhad.

"Mi fyddwn i'n meddwl bod gennym ni reitiach petha i'w gwneud na ffraeo efo pawb sy'n pasio," meddai'n swta.

"Oedd raid iti fod mor gas?" gofynnodd Einir ar ôl iddynt gael y ffordd yn glir.

"Mae'r diawliaid yn 'y nghynddeiriogi i."

"Doedd dim gofyn gwylltio cymaint."

"Wyt ti 'rioed yn cadw'u hochor nhw?"

"Dim peryg. Ond dydw i ddim yn mynd i swcro dy hunandosturi di chwaith."

"Nid hunandosturi ydi o."

Ond gwyddai mai Einir oedd yn iawn.

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

3 b) Wrth ddefnyddio'r ansoddeiriau "yn sydyn ac yn swta" mae'n creu darlun dicter a theimladau cryf. Mae'n dangos bod Meredydd yn mynd i gwylltio yn gyfan gwbl os dydy'r rhingyll ddim yn stopio ei herio. Mae'n dangos bod Meredydd yn cael ei gwylltio yn hawdd iawn ac pan mae'n dechrau gwylltio dydy neb yn gallu ei stopio. Mae Meredydd yn person tawel iawn, felly mae'r ansoddeiriau yn dangos bod Meredydd gyda ochr grac iddo sy'n cynyddu'r darlun o deimladau cryf.

Gan defnyddio'r idiom "a'i gasedd lond ei lygaid" yn creu llawer o densiwn gan bod Meredydd yn grac iawn gyda'r rhingyll. Felly rydych yn gallu teimlo'r casineb mae Meredydd gyda tuag at y rhingyll. Dydy Meredydd ddim yn gallu cuddio ei deimladau gan ei fod wedi gwylltio gymaint.

Mae'r brawddegau byr "Hoffai chwydu

i'w wyneb. Aeth yn welw yn sydyn a rhoes gam yn ôl." yn creu llawer o densiwn rhwng y ddau. Wrth ei ddefnyddio mae'n pwysleisio casineb ac faint mor grac yw Meredydd. Hefyd gall awgrymu bod rhywbeth yn mynd i ddigwydd gan bod popeth yn mynd yn dynn iawn. Rydym yn gallu gweld ei fod yn cyfleu holl teimladau cryf Meredydd.

Wrth ddefnyddio'r cwestiynau rhethregol "ond doedd hynny ddim yn bwysig nac oedd? Doedd ffenan o bwys am hwnnw nac oedd?" yn effeithiol iawn. Mae Meredydd wedi cael digon ac rydym yn gallu gweld bod e bron yn mynd i ffrwydro o fod mor grac. Mae'n dangos bod Meredydd yn mynd i roi'r ffidl yn y tô ac yn barod i fwrw'r rhingyll.

Gan ddefnyddio'r cyfelybiaeth "safai'n syth fel polyn â'i ddyrnau'n dynn" yn pwysleisio teimladau Meredydd. Mae wedi cael llond bol ac wedi ffrwydro tu fewn ond eisiau cadw ei hun rhag bwrw'r rhingyll gan bod ofn gydai. Felly mae'n creu awyrgylch dynn iawn ac dydych ddim yn gwybod beth sy'n mynd i digwydd nesaf.

| Question number<br>*Rhif y Cwestiwn* | | Leave Blank<br>*Gadewch yn wag* |
|---|---|---|
| | " | |
| 3 b) | Wrth ddefnyddio'r ansoddeiriau "yn sydyn ac yn swta" mae'n creu darlun dicter a theimladau cryf. Mae'n dangos bod Meredydd | |
| A | yn mynd i gwylltio yn gyfan gwbl os dydy'r rhingyll ddim yn stopio ei herio. Mae'n dangos bod Meredydd yn cael ei gwylltio yn hawdd iawn ac pan mae'n dechrau gwylltio dydy neb yn gallu ei stopio. Mae Meredydd yn person tawel iawn, felly mae'r ansoddeiriau yn dangos bod Meredydd gyda ochr grac iddo sy'n cynyddu'r darlun o deimladau cryf. | |
| | Gan defnyddio'r idiom "a'i gasedd lond ei lygaid" yn creu llawer o tensiwn | |
| X | gan bod Meredydd yn grac iawn gyda'r rhingyll. Felly ydych yn gallu teimlo'r casineb mae Meredydd gyda tuag at y rhingyll. Dydy Meredydd ddim yn gallu cuddio ei deimladau gan ei ~~fod~~ wedi gwylltio gymaint. | |
| | Mae'r brawddegau bir "Hoffai chwydu | |

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

i'w wyneb. Aeth yn welw yn sydyn a rhoes gam yn ôl." yn creu llawer o densiwn rhwng y ddau. Wrth ei ddefnyddio mae'n pwysleisio casineb ac faint mor grac yw Meredydd. Hefyd gall awgrymu bod rhywbeth yn mynd i ddigwydd gan bod popeth yn mynd yn dynn iawn. Rydym yn gallu gweld ei fod yn cyfleu holl teimladau cryf Meredydd.

Wrth ddefnyddio'r cwestiynau rhethregol "ond doedd hynny ddim yn bwysig nac oedd? Doedd ffeuan o bwys am hwnnw nac oedd?" yn effeithiol iawn. Mae Meredydd wedi cael digon ac ydym yn gallu gweld bod e bron yn mynd i ffrwydro o fod mor grac. Mae'n dangos bod Meredydd yn mynd i roi'r ffidl yn y tô ac yn barod i fwrw rhingyll.

Gan ddefnyddio'r cyffelybiaeth "safai'n syth fel polyn a'i ddyrnau'n dynn" yn pwysleisio teimladau Meredydd. Mae wedi cael llond bol ac wedi ffrwydro tu fewn ond eisiau cadw ei hun rhag bwrw rhingyll gan bod gwir gydai. Felly mae'n creu awyrgylch dynn iawn ac dydych ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf.

8

## I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

**4.** Darllenwch y darn a gymerwyd o **I Ble'r Aeth Haul y Bore?** ar dudalen 9. Yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(b)* Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 9.
Sut mae'r awdur yn darlunio dicter a theimladau cryfion yn yr olygfa hon?
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol.
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]

Roedd Carleton yn flin. Roedd o'n flin yn bennaf am iddo gael ei ddeffro ac yntau'n mwynhau ei gwsg.

"Ei restio fo, syr! Rhaid i chi ei restio fo a'i tsiarjo fo!"

"Milwr ydi o fel ti, Kit!"

"Pa fath o filwr sy'n lledaenu'r frech wen, syr? Ac yn peryglu iechyd y Ffort i gyd?"

"Pranc oedd o!"

"Glywais i chi'n iawn, syr?"

Anwybyddodd Carleton ei eiriau.

"Lle mae Dicks rŵan?"

"Dw i wedi'i daflu o i gell, syr."

"Beth?"

"Dw i wedi rhoi carn pistol ar draws ei wegil a'i roi o mewn cell, syr."

"Yna dos i'w ollwng yn rhydd!"

"Na wnaf, syr!"

"Beth?"

"Mae o fewn fy hawliau i fel is-gyrnol i orchymyn cadw milwr sydd wedi troseddu'n ddifrifol mewn cell, syr!"

Gwyddai yn syth na ddylai fod wedi rhoi pwyslais mor sarcastig ar y 'syr' olaf yna.

"Y fi sydd yn gorchymyn restio swyddogion sydd o dan f'awdurdod i – A NEB ARALL!"

Roedd wyneb Carleton yn fflamgoch. Camodd at y drws a'i agor.

"Sarjant! Dowch yma a dau ddyn hefoch chi! Ar y dwbwl!"

Mewn chwinciad, roedd y Sarjant wedi dod i'r ystafell gyda dau filwr.

"Mae'r Is-gyrnol Carson i'w restio, Sarjant!"

"Syr?"

"I'w restio a'i ddiarfogi, Sarjant!"

"Beth yw'r cyhuddiad, syr?" gofynnodd Carson mewn llais tawel.

"Anufudd-dod i ddechrau! Efallai y gallwn ni daflu ymosodiad ar gyd-swyddog i fewn yn rhywle hefyd!"

Safodd Carson fel delw o flaen Carleton, yna saliwtiodd yn goeglyd.

"Syr! Caniatâd i siarad, syr!"

Edrychodd Carleton dros ei guwch.

"Ie?"

Estynnodd Carson ei gyllell, ac yn araf a bwriadol torodd ei ysgwydd-ddarnau oddi ar ei lifrai.

"Y mae perthyn i'r un gatrawd â Dicks yn troi fy stumog, syr! Mae eich bod chi'n gwybod am weithgareddau Dicks ac yn gwrthod fy nghefnogi yn troi fy stumog ymhellach, syr!"

"Carson!"

"Mae'n rhaid i rywun, rywbryd, ddweud 'NA', syr!"

"Fe fyddi di'n edifar …"

"Byddaf … syr!"

"Carson!"

"Gyda … phob … parch … dydach chi ddim gwell na fo, syr!"

Tynnodd Carson ei felt a'i wn, a'u taflu ar ddesg Carleton. Roedd llygaid Carleton yn melltennu wrth iddo roi'r gorchymyn i'r Sarjant.

"Carson i'r gell, Sarjant, a'r Capten Dicks i ddod yma!"

Ymhen chwarter awr roedd Dicks yn sefyll o'i flaen a chlais du-las ar ochr ei wyneb. Rhoddodd Carleton orchymyn iddo fynd ar ôl Manuelito gyda hanner cant o ddynion. Doedd o ddim i ddangos trugaredd, a doedd o ddim i gymryd carcharorion.

* * *

Ymhen deuddydd, daeth Dicks a'i ddynion ar draws yr Indiaid yn cysgodi rhag lluwchfeydd ger Ransh y Ceffyl Du, a bu ysgarmes waedlyd. Doedd cyllyll y Navahos yn dda i ddim o'u cymharu â gynnau'r Cotiau Glas, ond llwyddodd Manuelito ac ugain o'r Navahos i ffoi i'r mynyddoedd.

Bu'r gweddill farw yn yr eira.

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

b) Ar ddechrau'r darn ymaeg mae'r awdur Carson yn defnyddio brawddegau byr ac ebychnodau, "Ei restio fo, syr! Rhaid i chi ei restio fo a'i tsiarjo fo!" Mae hyn yn effeithiol iawn am ei fod yn dangos pa mor grac ~~mae~~ yw Carson gyda Dicks. Mae'n creu elfen o panic yn ei lais hefyd fel pe bai yn ei ddweud yn gyflym. Mae'r ebychnodau yn effeithiol iawn am ~~ei~~ fod Carson yn benderfynol ac ~~yn~~ mae'n awgrymu ei fod yn gwenddi.

Yna defnyddir ~~cwes~~ dau gwestiwn rhethregol ar ôl eu gilydd, "Pa fath o filwr sy'n lledaenu'r frech wen, syr? Ac yn peryglu iechyd y Ffort i gyd?" Mae y cwestiynau rhethregol yma'n hynod o effeithiol oherwydd mae'n dangos anghrediniaeth sydd yn llais Carson. Nid yw Carson yn gallu credu fod cyd-filwr wedi gwneud ~~[illegible]~~ siwt beth. Mae hefyd yn ymateb i'r ~~be~~ ffaith fod Carleton yn ~~[illegible]~~, ~~Mae Mite~~ ~~ei~~ gymharu Carson gyda Dicks drwy ddweud, "Milwr ydi o fel ti, kit!" Mae'n grac ei fod yn cael ei ystyried yn debyg i Dicks.

Mae'r awdur wedi defnyddio ~~[illegible]~~ prif-lythrenau, "y fi sydd yn gorchymyn restio swyddogion sydd o dan f'awdurdod i - A NEB ARALL!" Mae'r priflythrenau'n effeithiol oherwydd mae'n dangos fod Carleton ~~[illegible]~~ yn rhoi pwysau ychwanegol ar y "A NEB ARALL". Mae hyn yn pwysleisio pam mor grac yw Carleton fod Carson wedi rhoi Dicks yn y gell. Hefyd mae'n awgrymu fod Carleton yn ofn colli awdurdod a rheolaeth.

Mae'r awdur wedi defnyddio cymhariaeth, "Safodd Carson fel delw o flaen Carleton." Mae hwn hefyd yn effeithiol oherwydd mae'n dangos fod Carson yn sefyll heb yr un

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

symudiad bach - fel carreg. Mae'n dangos ~~ei fod~~ y ac yn pwysleisio anghrediniaeth Carson tuag at ymateb Carleton o be wnaeth Dicks.

Mae yna drosiad yn agos i ddiwedd y ddrama, "Roedd llygaid Carleton yn mellltennu wrth iddo roi'r gorchymyn i'r Sarjant." Mae hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dangos fod Carleton yn tu hwnt o grac gyda'r ffordd mae Carson newydd siarad gyda ef. Mae e'n awgrymu fod Carleton ofn colli rheolaeth. Nid yw'n teimlo ei fod yn cael y parch delfrydol. Mae'r ffaith ei bod yn mellltennu yn cyfleu ei fod nhw'n fawr, ~~ac~~ yn ac dangos i yn ~~ei~~ bwysig i ddychryllyd.

Question number
Rhif y
Cwestiwn

Leave
Blank
Gadewch
yn wag

b) Ar ddechrau'r darn ymma mae'r awdur Carson yn defnyddio brawddegau byr ac ebychnodau, "Ei restio fo, syr! Rhaid i chi ei restio fo a'i tsiarjo fo!" Mae hyn yn effeithiol iawn am ei fod yn dangos pa mor grac ydyw Carson gyda Dicks. Mae'n creu elfen o panic yn ei lais hefyd fel pe bai yn ei ddweud yn gyflym. Mae'r ebychnodau yn effeithiol iawn am ei fod Carson yn benderfynol ac mae'n awgrymu ei fod yn gwenddi.

Yna defnyddir dau gwestiwn rhethregol ar ôl ei gilydd, "Pa fath o filwr sy'n lledaenu'r frech wen, syr? Ac yn peryglu iechyd y Ffort i gyd?" Mae y cwestiynau rhethregol yma'n hynod o effeithiol oherwydd mae'n dangos anghrediniaeth sydd yn llais Carson. Nid yw Carson yn gallu credu fod cyd-filwr wedi gwneud siwt beth. Mae hefyd yn ymateb i'r ffaith fod Carleton yn ~~[illegible]~~, ~~[illegible]~~ ei gymharu Carson gyda Dicks drwy ddweud, "Milwr ydi o fel ti, kit!" Mae'n grac ei fod yn cael ei ystyried yn debyg i Dicks.

Mae'r awdur wedi defnyddio ~~[illegible]~~ prif-lythrenau i, "y fi sydd yn gorchymyn restio swyddogion sydd o dan f'awdurdod i - A NEB ARALL!" Mae'r priflythrenau'n effeithiol oherwydd mae'n dangos fod Carleton ~~[illegible]~~ yn rhoi pwysau ychwanegol ar y "A NEB ARALL". Mae hyn yn pwysleisio pam mor grac yw Carleton fod Carson wedi rhoi Dicks yn y gell. Hefyd mae'n awgrymu fod Carleton yn ofn colli awdurdod a rheolaeth.

Mae'r awdur wedi defnyddio cymhariaeth, "Safodd Carson fel delw o flaen Carleton." Mae hwn hefyd yn effeithiol oherwydd mae'n dangos fod Carson yn sefyll heb yr un

Question number
Rhif y Cwestiwn

Leave Blank
Gadewch yn wag

symudiad bach - fel carreg. Mae'n dangos ~~ei fod~~ ac yn pwysleisio anghrediniaeth Carson tuag at ymateb Carleton o be wnaeth Dicks.

A

Mae yna drosiad yn agos i ddiwedd y darn, "Roedd llygaid Carleton yn melltennu wrth iddo roi'r gorchymyn i'r Sarjant." Mae hyn yn effeithiol oherwydd mae'n dangos fod Carleton yn fwy hwyrach o grac gyda'r ffordd mae Carson newydd siarad gyda ef. Mae e'n awgrymu fod Carleton ofn colli rheolaeth. Nid yw'n teimlo ei fod yn cael y parch deilwng. Mae'r ffaith ei bod yn mellternu yn cyfleu ei fod nhw'n fawr, ac yn ac dangos, yn ~~[illegible]~~ ddychrynllyd.

10 ·

b) Mae'r awdur yn cyfleu dicter trwy ddefnyddio llawer o ebychnodau "Milwr ydi o fel ti, Kit!". Dengys hyn bod pobl yn flin ac yn gweiddi ar ei gilydd. Mae'r ddeialog hefyd yn rhoi awyrgylch o ddicter achos mae pethau'n symud yn gyflymach.

Mae'r awdur hefyd wedi penderfynu i ddefnyddio prif lythrennau i gyfleu dicter "A NEB ARALL!". Mae'n pwysleisio'r ffaith bod Carleton yn gweiddi ac yn flin gyda Carson. Mae hefyd yn dangos mai Carleton sydd â'r mwyaf o bŵer achos fe sy'n gwneud y mwyaf o sŵn.

Mae'r ansoddair "fflamgoch" yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol fan hyn. Mae'n

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

dangos bod wyneb Carleton wedi mynd yn goch ac yn boeth fel fflam. Dim ond os ydych yn grac iawn bydd hyn yn digwydd felly mae'n profi pa mor wyllt mae Carleton efo Carson ac yn cynyddu'r tensiwn trwy ddangos ei fod yn grac.

Mae'r frasiad "Safodd Carson fel delw" yn dangos sioc Carson o gael ei arestio.* Mae hefyd yn dangos bod awdurdod gan Carleton dros Carson, a phan mae Carson yn gofyn cwestiwn mae ei lais yn dawel. Mae'r dresiad yn dangos teimladau Carson at gael ei arestio.

Mae dicter Carleton yn cynyddu'n amlwg pan mae "llygaid Carleton yn melltenu". Mae mellten yn taro'n sydyn ac yn hala ofn ar nifer o bobl. Golyga hyn bod y tensiwn yn cynyddu'n fawr, a dylai Carson fod ofn.

Ar ddiwedd y dyfyniad mae brawddeg syml, byr "Bu'r gweddill farw yn yr eira". Mae hyn yn effeithiol achos mae'r frawddeg yn cael ei bwysleisio oherwydd nid oes unrhyw eiriau hir cymhleth. Mae beth sydd wedi digwydd yn ddifrifol a dyma beth roedd teimladau cyf a dicter Carleton wedi arwain at.

*Mae delw yn llonydd felly nid yw Carson yn symud o gwbl.

b) Mae'r awdur yn cyfleu dicter trwy ddefnyddio llawer o ebychnodau "Milwr ydi o fel ti, Kit!". Dengys hyn bod pobl yn flin
A ac yn gweiddi ar ei gilydd. Mae'r ddeialog hefyd yn rhoi awyrgylch o ddicter achos mae pethau'n symud yn gyflymach.

Mae'r awdur hefyd wedi penderfynu i
A ddefnyddio prif lythrennau i gyfleu dicter "A NEB ARALL!". Mae'n pwysleisio'r ffaith bod Carleton yn gweiddi ac yn flin gyda Carson. Mae hefyd yn dangos mai Carleton sydd â'r mwyaf o bŵer achos fe sy'n gwneud y mwyaf o sŵn.

A Mae'r ansoddair "fflamgoch" yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol fan hyn. Mae'n

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

dangos bod wyneb Carleton wedi mynd yn goch ac yn boeth fel fflam. Dim ond os ydych yn grac iawn bydd hyn yn digwydd felly mae'n profi pa mor wyllt mae Carleton efo Carson, ac yn cynyddu'r tensiwn trwy ddangos ei fod yn grac.

Mae'r trosiad "Safodd Carson fel delw" yn dangos sioc Carson o gael ei arestio.* Mae hefyd yn dangos bod awdurdod gan Carleton dros Carson, a phan mae Carson yn gofyn cwestiwn mae ei lais yn dawel. Mae'r dresiad yn dangos teimladau Carson at gael ei arestio.

Mae dicter Carleton yn cynyddu'n amlwg pan mae "llygaid Carleton yn melltennu". Mae mellten yn taro'n sydyn ac yn hala ofn ar nifer o bobl. Golyga hyn bod y tensiwn yn cynyddu'n fawr, a dylai Carson fod ofn.

Ar ddiwedd y dyfyniad mae brawddeg syml, byr "Bu'r gweddill farw yn yr eira". Mae hyn yn effeithiol achos mae'r frawddeg yn cael ei bwysleisio oherwydd nid oes unrhyw eiriau hir cymhleth. Mae beth sydd wedi digwydd yn ddifrifol a dyma beth roedd teimladau cryf a dicter Carleton wedi arwain at.

A

6.

*Mae delw yn llonydd felly nid yw Carson yn symud o gwbl.

**6.** Darllenwch y darn a gymerwyd o **Yn y Gwaed** ar dudalen 13. Yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

*(b)* Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 13.
Sut mae'r awdur yn darlunio dicter a theimladau cryfion yn yr olygfa hon?
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol.
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]

Y golled fwyaf i'r hen wraig, fodd bynnag, fu darganfod Mic un bore yn gorffyn oer wrth ei gadwyn. Haerai Mared iddi weld deigryn yn llygad ei mam ond chwerthin yn chwerw a wnaeth Robin o glywed hynny. 'Anodd gen i gredu'r fath beth ond mi ddeuda i gymint â hyn wrthat ti; mi fasa'n haws gen i gredu hyn'na na derbyn y basa hi'n colli deigryn pe bai 'ngwaed *i*'n fferru.'

Mis o gecru diddiwedd fu hi a Mared yn gweld ei brawd yn mynd yn barotach ac yn fwy diamynedd ei ateb bob dydd. Dychrynwyd hi unwaith pan welodd ef yn rhuthro'n wyllt am y procer a'i godi'n fygythiol i gyfeiriad Mam ond dal ei thir yn ddirmygus a wnaeth yr hen wraig a Robin wedyn, yn ôl ei arfer, yn pwdu a mynd i'w gragen.

Celu a chelu ei phryder a wnâi Mared o ddydd i ddydd, rhag ychwanegu at yr holl annifyrrwch ar yr aelwyd. Ond roedd gohirio'r annymunol cyhyd ynddo'i hun yn ychwanegu'n ddiangen at bryder oedd eisoes wedi mynd â'r holl liw o'i gruddiau a rhoi cleisiau duon o dan ei llygaid. Roedd y croen o boptu'i thrwyn wedi tynhau a'i hwyneb yn feinach nag y bu. Wrth y bwrdd ni wnâi fwy na phigo'r bwyd oddi ar ei phlât.

Daeth pethau i ben un bore Llun, yr unfed ar ddeg o Fawrth, ar ôl Sul o bendroni ac atgofio, o ddychmygu ac arswydo. Dyna ddrwg dydd Sul, roedd yn ddiwrnod mor swrth a'i oriau'n llusgo.

Roedd y penderfyniad wedi'i ffurfio'n derfynol yn ystod oriau effro'r nos a phan ddaeth Mared allan i ben y grisiau cerrig drannoeth gyda'r ychydig lestri budron yn ei dwylo a gweld Mam yn cymell yr ieir i bigo ar glwt di-eira o'r buarth, dyma ymwroli. Roedd Robin yn siŵr o fod yn ddigon pell o'u clyw.

'Tri mis? Tri mis ddeudist ti?'

Eiliadau o syllu anghrediniol a'r ferch, o'r diwedd, yn gostwng ei golygon yn gyndyn euog.

'Tri mis? Lle uffar wyt ti 'di bod na fasat ti 'di deud wrtha i'n gynt?'

'Peidiwch â gweiddi, Mam.' Llais tawel, edifeiriol. 'Pa wahaniaeth pe bawn i wedi deud ynghynt?' Roedd tri blewyn y ddafaden yn plycio'n ffyrnig.

'Gwahaniaeth, ddeudist ti? Pa wahaniaeth? Fedri di ofyn cwestiwn mor dwp?' Yn hytrach na gostwng ei llais roedd hi'n gweiddi mwy. 'Yli, anodd fydd petha rŵan!'

Teimlodd Mared beth o'r euogrwydd yn ei gadael wrth deimlo'r angen i'w hamddiffyn ei hun.

'Wel, deudwch y gwir. Fasa fo wedi gneud rhywfaint o wahaniaeth? Fis, dau fis yn ôl, gwylltio fel hyn fasach chi wedi'i neud 'run fath yn union, fel pe baech chi'ch hun yn gwbwl ddihalog.'

'Paid ti â chodi dy lais ata i, yr hoedan fach! Nac edliw! Na defnyddio dy eira ffansi chwaith. Ti'n gwbod be 'di dy wendid di wedi bod erioed, yn dwyt?' Roedd ei llais wedi codi'n sgrech bron. 'Rhy barod i ledu dy goesa'r butan fach!'

Ffrwydrodd Mared hefyd. 'Peidiwch chi â 'ngalw i'n butan.'

'Be arall wyt ti ond hwran? Sgin ti syniad pwy ydi'r tad! Nag oes ma'n siŵr.'

'Putan? Hwran? Pwy uffar 'dach chi i siarad ac i daflu'ch bustul?'

Daeth sŵn drws y llofft stabal yn cael ei ysgwyd a chododd ton o grochlefain dig ond roedd y ddwy yn fyddar iddo.

'A 'dach chi'n gofyn pwy ydi'r tad? Wel, hwyrach y bydd raid i 'mhlentyn inna alw'i dad yn Dewyrth ne rwbath felly hefyd!'

'Gan bwyll, y gnawas!' Roedd llygaid yr hen wraig yn melltennu a'i cheg yn glafoerio. 'Mesur dy eiria'n well! Pwy ydi o?' Ac yna'n ddistawach, yn fwy petrus, 'Yr un un ag o'r blaen?'

Chwarddodd Mared yn wawdlyd. 'Mi fasach chi'n licio gwbod yn basach!'

'Ateb fi'r munud 'ma! Ydi o'n perthyn iti?'

Roedd y drws uwch eu pennau'n cael ei ysgwyd yn lloerig a'r crochlefain wedi troi'n un waedd ofidus, hir. Sobrodd Mared drwyddi a gostyngodd ei llais.

'Yn perthyn imi? Falla'i fod o. Falla'n wir 'i fod o.'

Ni chlywodd Robin ymateb olaf ei chwaer ond bu yno wrth dalcen cwt y tractor yn ddigon hir i ddeall beth oedd yn digwydd. Gwelodd ei fam yn brasgamu'n ffyrnig yn ôl i'r tŷ a Mared yn llusgo'i thraed ar ei hôl.

'Y Sais uffar!' sgyrnygodd, a chryndod ei dymer, yn gymysg ag oerni'n meirioli, yn rhedeg drosto. 'Aros di i mi gael gafael arnat ti.'

| Question number / *Rhif y Cwestiwn* | | Leave Blank / *Gadewch yn wag* |
|---|---|---|
| b) | Ar ddechrau yr adran hon o'r nofel gallwn weld bod Mic wedi marw a bod hynny wedi gwneud i Mam crio drosto ac mae Robin yn ymateb gyda "Mi fasa'n haws gen i gredu hyn'na na derbyn y basa hi'n colli deigryn pe bai 'ngwaed i'n llenwi" Mae hyn yn pwysleisio ei agosatrwydd at Mared gan ddweud hynny wrthi ond pellter perthynas Mam a Robin. Mae hyn yn eironig oherwydd dydy Mam ddim yn ymateb yn emosiynol ar ddiwedd y nofel ar ôl iddo cyflawni hunanladdiad ac ateb gan ddweud "his fault." Mae hyn yn pwysleisio bod Mam na Robin mewn tymer du ond mae Mared yn teimlo y dylai hi ddweud wrth Mam. | |
| | Mae'r awdur yn defnyddio'r ~~[illegible]~~ personoliad "roedd y ~~[illegible]~~ diwrnod mor swrth a'i oriau'n llusgo" sy'n pwysleisio sut mae Mared yn teimlo am y diwrnod ac yr amser hir cyn iddi ddweud wrth ei Mam yn nes ymlaen. | |
| | Unwaith mae Mared wedi dweud wrthi mae hi'n ailadrodd "Tri mis" mewn sioc ac mewn dicter ac yn araf yn dechrau mynd yn flin. Mae'r ailadrodd yn pwysleisio pa mor hir roedd Mared wedi cadw ei chyfrinach i'w hun a pa mor flin oedd mam am hyn. | |
| | Mae Mam yna yn defnyddio rhegfeydd a galw enwau ar Mared er enghraifft "Yr hoedan fach", "y bitan fach" a "hwran." Mae hyn yn pwysleisio agwedd Mam am y peth ac yn gweld bai ar Mared a gwylltio gyda hi ac yn defnyddio geiriau cryfion er mwyn disgrifio ei theimladau cryfion. | |
| | Mae'r trosiad "llygaid yr hen wraig yn mellfennu" yn cael ei hailadrodd yn aml ac y tro yna i gyflwyno ei dicter a'i teimladau | |

| Question number / *Rhif y Cwestiwn* | | Leave Blank / *Gadewch yn wag* |
|---|---|---|
| | Gwr yn effeithiol. | |
| | Mae Erbyn y diwedd mae Mam, Mared | |
| | a Robin wedi gwylltio ac mae Robin yn | |
| | defnyddio'r ebychiad "Sais uffar!" gan roi y bai ar | |
| | Jeff. Mae'n teimlo'n gryf iawn am hyn oherwydd | |
| | fod e'n teimlo gwyniad at Mared ac mae o'n | |
| | gwybod pwy ydy'r tad ac yn chwilio i beio | |
| | rhywun ond nid Mared. | |

Question number
*Rhif y Cwestiwn*

Leave Blank
*Gadewch yn wag*

b) Ar ddechrau yr adran hon o'r nofel gallwn weld
bod Mic wedi marw a bod hynny wedi gwneud
i Mam crio drosto ac mae Robin yn ymateb gyda
"Mi fasa'n haws gen i gredu hyn'na na derbyn y
basa hi'n colli deigryn pe bai 'ngwaed i'n rhewi"
Mae hyn yn pwysleisio ei agosatrwydd at Mared
gan ddweud hynny wrthi ond pellter perthynas Mam
a Robin. Mae hyn yn eironig oherwydd dydy
Mam ddim yn ymateb yn emosiynol ar
ddiwedd y nofel ar ôl iddo cyflawni hunanladdiad
ac ateb gan ddweud "his fault." Mae hyn yn
pwysleisio bod Mam na Robin mewn hwyl
da ond mae Mared yn teimlo y dylai hi
ddweud wrth Mam.

Mae'r awdur yn defnyddio'r ~~[crossed-out word]~~ personoliad "roedd y
A [scribble] ddiwrnod mor swrth a'i oriau'n llusgo" sy'n
pwysleisio sut mae Mared yn teimlo am y
diwrnod ac yr amser hir cyn iddi ddweud
wrth ei mam yn nes ymlaen.

Unwaith mae Mared wedi dweud wrthi
mae hi'n ailadrodd "Tri mis" mewn sioc ac
A mewn dicter ac yn araf yn dechrau mynd
yn flin. Mae'r ailadrodd yn pwysleisio pa mor
hir roedd Mared wedi cadw ei chyfrinach i'w
A hun a pa mor flin oedd mam am hyn.

Mae Mam yna yn defnyddio rhegfeydd
a galw enwau ar Mared er enghraifft
A "Yr hoedan fach", "y bitsh fach" a "hwran." Mae
hyn yn pwysleisio agwedd Mam am y
peth ac yn gweld bai ar Mared a
gwylltio gyda hi ac yn defnyddio geiriau cryfion
er mwyn disgrifio ei theimladau cryfion.

Mae'r [illegible]rosiad "llygaid yr hen wraig yn
A melltennu" yn cael ei hailadrodd yn aml ac
y tro yma i gyfleu ei dicter a'i theimladau

| Question number *Rhif y Cwestiwn* | | Leave Blank *Gadewch yn wag* |
|---|---|---|
| | Cryf yn effeithiol. | |
| | Mae Erbyn y diwedd mae Mam, Mared | |
| | a Robin wedi gwylltio ac mae Robin yn | |
| | defnyddio'r ebychiad "Sais uffar!" gan roi y bai ar | |
| | Jeff. Mae'n teimlo'n gryf iawn am hyn oherwydd | |
| A' | fod e'n teimlo atyniad at Mared ac mae o'n | |
| | gwybod pwy ydy'r tad ac yn chwilio i beio | 10. |
| | rhywun ond nid Mared. | |